

## Sul Addysg

### Darlleniad: Diarhebion 3

---

---

Ein Tad, plygwn yn wylaidd ac edifeiriol ger dy fron yn awr, gan ddiolch fel pechaduriaid a meidrolion am y fraint o gael dod i bresenoldeb yr unig wir a bywiol Dduw. Derbyn ni yn dy faddeuant yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Braint aruthrol i ni yw gwybod dy fod ti'n ein caru, a'th fod drwy aberth dy Fab ar y Groes, wedi ein cymodi â thi dy hun ac wedi ein mabwysiadu yn blant i ti dy hun.

‘Ond cynifer ag a’i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy’n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw.’

Diolch i ti am gael adnabod dy Fab, ac ynddo am gael profi dy gariad. Ti yn dy drugaredd O! Dad, a wnaeth hyn i gyd yn bosibl. Rhodd dy ras i ni yw'r cyfan.

Cofiwn i ti yn dy ras ein creu ar dy lun a'th ddelw dy hun; ac er llygru'r ddelw honno gan ein pechod a'n bai, diolchwn i ti am faddau i ni ac am i ti ein hadfer. Fe'n creaiſt gyda doniau a gallu naturiol amrywiol; rhoddaist synhwyrau a rheswm i bob un ohonom. Y mae'r ddawn i ddysgu ac i lunio yn rhan o'n gwneuthuriad cynhenid; ac er i bechod yn aml lygru a llurgunio cryn dipyn ar hynny, diolchwn am ddoniau a fedr, o'u sancteiddio, fod yn brydferth a gwerthfawr iawn ac yn ogoniant i ti. Arwain ni'n awr ar y Sul arbennig hwn i gysegru ein doniau a'n gallu er gogoniant i ti ac er lles a bendith ein cyd-ddyn.

Diolchwn i ti, O! Dad, am y meddwl dynol, ac am ei allu i ddirnad, i ystyried ac i ddysgu. Y mae'n rhyfeddol cymaint o wybodaeth y gall y meddwl dynol ei gwmpasu a'i gofio, a sut y gall addasu ac ychwanegu at y wybodaeth honno. Ar hyd ein hoes fe fyddwn yn dysgu; dysgu drwy addysg a gwybodaeth; dysgu trwy brofiad hefyd. Gweddiwn yn awr am ostyngeddwrwydd i ddysgu a chael ehangu'n bryd ar hyd ein hoes. Gwared ni rhag cadw mewn unrhyw rigol o'n gwneuthuriad balch ein hunain a all ein dallu i wybodaeth a doethineb ehangach. Boed inni chwilio am y gwir

bob amser, ac nid yn unig am y gwir ond am ddoethineb i wybod sut i'w ddefnyddio. Gwnaeth y ddynoliaeth lawer o ddarganfyddiadau pwysig dros y canrifoedd; rhai o'u hiawn ddefnyddio a fedrai fod yn fendith, ond o'u camddefnyddio yn felltith i gyd-ddyn ac yn sarhad arnat ti. Gweddiwn felly, nid yn unig am gael mwy o addysg a gwybodaeth, ond hefyd am ddoethineb i ddefnyddio gwybodaeth er bendith ein byd a'i bobl, ac er gogoniant i ti.

Cofiwn, ein Tad, am bawb sy'n gyfrifol am gyfrannu addysg a gwybodaeth mewn ysgol, coleg ac unrhyw sefydliad arall. Sancteiddia eu dawn i ddarganfod ac i rannu gwybodaeth, fel y bydd yr hyn a dderbynnir gan y myfyrwyr, nid yn unig yn ehangu meddyliau, ond hefyd yn adeiladu cymeriadau. Cyflwynwn bob ysgol a choleg i'th sylw, O! Dad, yn ymwybodol iawn o'r holl newidiadau y maent yn eu hwynebu'n awr, a'r cyni ariannol sydd hefyd yn llyffethair arnynt. Gweddiwn am dy arweiniad i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer addysg yn ein gwlad, i'r rhai sy'n gorfod gweithredu cynlluniau, a'r rhai sy'n gorfod sefyll o flaen dosbarth. Gwyddom, O! Dad, fod addysg yn un o'r buddsoddiadau pwysicaf mewn plant, ieuenctid ac oedolion y gall unrhyw gymdeithas ei wneud ar gyfer y dyfodol. Gwyddom hefyd, yn wyneb yr holl broblemau economaidd, teuluol, a phersonol sydd mor gyffredin yn ein gwlad a'n cymdeithas, nad yw llawer o blant, ieuenctid ac oedolion yn cael y gorau o fyd addysg.

‘O! tosturia wrth genhedlaeth  
Gyndyn, wamal, falch ei bryd,  
Sy'n drmygu'i hetifeddiaeth  
A dibrisio'i breintiau drud.’

Gweddiwn nid yn unig dros allu academaidd plant a phobl o bob oed i elwa ar addysg, ond ar i ti, ein Tad, drwy rym dy Ysbryd a thystiolaeth Eglwys dy Fab, eu diwyllio. Nid paganiaid gwybodus ac addysgedig yw'r nod, ond creaduriaid newydd yng Nghrist, wedi eu hyfforddi i sylweddoli eu llawn botensial fel plant i Dduw. Pobl a all ailsefydlu aelwydydd Crist-ganolog, cymdeithas wâr ac ystyriol, systemau gwleidyddol a masnachol cyfiawn a theg, a byd gwell i bawb fyw ynddo. ‘Deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.’ Gwrando'n gweddi er dy ogoniant, yn enw ac yn haeddiant ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

*Dafydd Roberts*